



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref:

Dyfed Alsop
Prif Weithredwr
Awdurdod Cyllid Cymru

Copi at: Ruth Glazzard
Cadeirydd
Awdurdod Cyllid Cymru

Mai 2023

Annwyl Dyfed

PARTNERIAETH AWDURDOD CYLLID CYMRU 2023-24

Yn unol â'r Cytundeb Rhyngadrannol rhwng Llywodraeth Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru (ACC), ysgrifennaf atoch i nodi cyllideb ACC ar gyfer 2023-24. Hoffwn hefyd dynnu sylw at rai meysydd penodol i'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac ACC ganolbwyntio arnynt, yn unol â chynllun corfforaethol tair blynedd ACC.

Cyllideb ACC ar gyfer 2023-24

Yn dilyn cymeradwyaeth y Senedd o Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar 7 Mawrth 2023, gallaf gadarnhau ar gyfer 2023-24 y bydd cyllideb refeniw ACC yn cynyddu i £8,662,660 a bydd y gyllideb gyfalaf yn £270,000. Bydd ei gyllideb nad yw'n arian parod yn £228,000.

Mae'r gyllideb refeniw yn cynnwys £1,100,000 i weithio ar ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu, meithrin gallu ac ymchwilio i fodolau a chostau ar gyfer trethi newydd a'r rhai sy'n bodoli eisoes. Yn ystod 2023-24, bydd hyn yn cynnwys arwain prosiect darganfod ar gyfer yr Ardoll Ymwelwyr. Mae'r prosiect hwn yn cael ei ddatblygu drwy gytundeb adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Gweithio mewn partneriaeth

Mae'n bwysig bod swyddogion ACC a Thrysorlys Cymru yn parhau i gryfhau eu trefniadau gweithio mewn partneriaeth ac yn bwrw ati â'r ymrwymiad yng nghynllun gwaith y Polisi Trethi i ddatblygu'r 'Ffordd Gymreig o Drethu'.

Dylai datblygu polisi cyflawn ac arbenigol fod yn nod gan y bartneriaeth – o ddechrau'r broses o gynllunio polisi i ddarparu'r cyngor gweinidogol a gweithredu polisi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymhlith y camau penodol y dylid ymgymryd â hwy y mae rhannu cyngor cyfreithiol yn gyfrinachol, cydweithio ar lunio cyngor gweinidogol, ei gwneud yn haws i staff symud rhwng y ddau sefydliad, cael gwared ar unrhyw faterion sy'n rhwystr i gydweithio llwyddiannus a chynnwys ei gilydd mewn cyfleoedd dysgu.

Cynllun Corfforaethol ACC

Mae hefyd yn bwysig bod ACC yn parhau i ddatblygu'r ymrwymadau yn y Cynllun Corfforaethol tair blynedd a gyhoeddwyd y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys parhau i ddatblygu ei wasanaethau digidol a data; gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i weithredu'r strategaeth ar y cyd newydd a datblygu eich dull ar y cyd o gymhwyso'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i warediadau gwastraff heb eu hawdurdodi; a chefnogi'r gwaith o gynllunio gwasanaethau treth a refeniw newydd posibl.

Cyflawni yn erbyn y mesurau perfformiad allweddol

Wrth ddatblygu a symud ymlaen fel sefydliad, mae'n bwysig bod ACC yn parhau i gynnal ei enw da presennol fel sefydliad dibynadwy, y gellir ymddiried ynddo, drwy ei berfformiad wrth weinyddu'r trethi datganoledig sy'n bodoli eisoes. Felly, mae'n bwysig cynnal y pwyslais ar gyflawni yn erbyn y mesurau perfformiad presennol ac adolygu'r targedau hyn bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Dylai ACC barhau i fod yn sefydliad cynhwysol i'r rhai sy'n gweithio yno. Dylai fod yn rhywle lle y mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn gallu llwyddo, a dylai fod yn rhywle sy'n cynnal yr arfer gorau o ran bod yn gynhwysol a thrin pobl yn deg.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, disgwyliaf i ACC:

- weithio gyda thîm Cenedlaethau'r Dyfodol i baratoi ar gyfer cael eu rhestru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- chwarae ei ran i gyflawni ein hymrwymiad i wella gwasanaethau cyhoeddus, drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol;
- parhau i hybu'r Gymraeg a hwyluso ei defnydd.

Mae'r llythyr hwn yn cael ei gopïo at Gadeirydd ACC, yr Ysgrifennydd Parhaol a Chyfarwyddwr Trysorlys Cymru.

Yn gywir

Rebecca Evans AS/MS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government